Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru Adroddiad Blynyddol 2016 – 2017

Awst 2018

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru

Special Educational
Needs Tribunal for Wales

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Amdanom ni	5
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	8
Adran 3	Ein Cwsmeriaid	24
Adran 4	Blaenoriaethau Busnes	25
Adran 5	Gwariant	26

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG33815 ISBN digidol 978-1-78937-909-9

Rhagair

Dyma fy mhedwerydd Adroddiad Blynyddol ar ddeg fel Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r cyfnod rhwng mis Medi 2016 a mis Awst 2017. Mae'n siŵr eich bod yn sylweddoli bod hon wedi bod yn flwyddyn eithriadol o brysur i'r Tribiwnlys wrth i ni gyfrannu at y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'n gwaith yn craffu ar y Bil. Felly, yn ystod y flwyddyn, cefais fy ngalw gerbron y pwyllgor dethol i ateb cwestiynau Aelodau'r Cynulliad ynghylch y bil newydd arfaethedig. Mynegais bryder y Tribiwnlys am sefyllfa iechyd yn y Bil Newydd. Fel y gwyddoch, ni all y Tribiwnlys orchymyn Awdurdodau Iechyd i ddarparu'r therapïau sy'n ofynnol ar gyfer anghenion addysgol arbennig y plentyn. Mae hyn yn rhwystredig dros ben a chyflwynwyd sylwadau cryf i'r pwyllgor am y mater hwn.

Yn ystod y flwyddyn, cawsom 144 apêl a 10 hawliad. Mae hyn yn 34% o gynnydd ar y flwyddyn flaenorol. Ni allaf esbonio pam mae'r niferoedd wedi cynyddu. Ond wrth ddadansoddi'r apeliadau, gellir nodi bod y rhan fwyaf o'r apeliadau'n ymwneud â gwrthod asesu a gwrthod rhoi datganiad. Mae'n eithaf amlwg o gyfarfodydd y grŵp defnyddwyr bod rhieni'n naturiol yn poeni am y ddeddf newydd a goblygiadau'r ddeddf ar eu plant. O ganlyniad, mae'n ddigon posib bod rhieni'n fwy awyddus i gael datganiad lle mae'r holl reoliadau sy'n berthnasol i'r datganiad yn glir, yn hytrach na phrofi'r darpariaethau dan y ddeddf newydd. Dan y ddeddf newydd, bydd ein hawdurdodaeth yn cael ei hymestyn i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Ein pryder yn y cyswllt hwn yw y gallem weld cynnydd sylweddol yn ein niferodd a fydd yn cael effaith ar ein hadnoddau. Pan gafodd yr ystod oedran ei ymestyn yn Nhribiwnlys Lloegr, cafwyd 20% o gynnydd yn nifer yr apeliadau a gwelwyd yr un cynnydd yn yr Alban. Bydd ehangu'r ystod oedran hefyd yn golygu y bydd angen cynnal rhagor o hyfforddiant i sicrhau bod y sgiliau gofynnol gennym i ddelio â'r heriau y gallem eu hwynebu wrth ddelio â phobl ifanc. Rydym eisoes yn ystyried pa hyfforddiant pellach fydd yn ofynnol a byddwn yn rhoi'r hyfforddiant hwnnw ar waith yn ystod y 12 mis nesaf.

Ym mis Ionawr 2017, cefais fy Nghyfarfod Blynyddol gyda'r Gweinidog Addysg, Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Mae'r cyfarfod hwn wedi bod yn gyfle defnyddiol yn y gorffennol i drafod anghenion y Tribiwnlys a phroblemau i'r dyfodol. Manteisiais ar y cyfle eto i drafod y tensiynau rhwng yr Awdurdod Iechyd a'r Awdurdod Iechyd mewn perthynas â darparu therapïau i blant ag anghenion addysgol arbennig. Gofynnodd y Gweinidog i mi roi fy marn yn ysgrifenedig ac fe drafododd y mater hwn gyda'r Awdurdodau Iechyd.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi trafod cyflwyno cynllun peilot mewn perthynas â gwrandawiadau papur ar gyfer apeliadau gwrthod asesu, lle nad yw'r partïon yn mynychu'r gwrandawiad. Cafwyd ymateb cadarnhaol, felly cychwynnwyd cynllun peilot a fydd yn dod i ben ym mis Mehefin 2018. Bydd pob gwrandawiad gwrthod asesu yn cael ei gynnal fel gwrandawiad papur oni fydd unrhyw rai o'r partïon yn gwrthwynebu. Byddwn yn monitro'r cynllun peilot hwn yn ofalus a byddwn hefyd yn ei drafod ymhellach yng nghyfarfod ein grŵp defnyddwyr. Os bydd y cynllun peilot yn llwyddiannus, y gobaith yw y bydd y newid hwn yn dod yn un parhaol.

Tuag at ddiwedd cyfnod yr adroddiad hwn, dechreusom broses recriwtio gyda'r Pwyllgor Penodiadau Cyhoeddus i benodi dau gadeirydd arall i'r Tribiwnlys. Gobeithio y gallaf ddweud mwy am hyn yn fy Adroddiad Blynyddol nesaf.

Roedd y flwyddyn hon yn eithriadol o brysur i aelodau'r Tribiwnlys a'i ysgrifenyddiaeth. Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr apeliadau ac rydym wedi cyflawni bloc sylweddol o waith i baratoi ar gyfer newidiadau deddfwriaethol pwysig sy'n cael eu hamlinellu uchod. Nid yw'r Tribiwnlys wedi cael adnoddau ychwanegol i gwblhau'r gwaith ychwanegol hwn, a brwdfrydedd, ymroddiad a gwaith caled yr ysgrifenyddiaeth a'r aelodau sy'n gyfrifol am y cynnydd sydd wedi'i wneud a bod ansawdd ein gwasanaeth craidd wedi'i gynnal. Rwy'n ffodus eithriadol fod gennyf aelodau ac ysgrifenyddiaeth mor ymroddedig ac rwy'n gwybod y bydd yr heriau sy'n sicr o'n blaenau yn cael eu datrys gan y Tribiwnlys gyda chefnogaeth barhaus yr aelodau a'r ysgrifenyddiaeth.

Rhiannon Walker
Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Adran 1 – Amdanom ni

Yn yr adran hon, ein:

- Sail TAAAC
- Swyddogaeth TAAAC
- Rheoliadau TAAAC
- Proses TAAAC
- Aelodau TAAAC
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â TAAAC
- Defnyddio TAAAC

Sail TAAAC

Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yn dribiwnlys annibynnol a gafodd ei sefydlu yn 2003, dan Adran 333 (1ZA) o Ddeddf Addysg 1996. Mae TAAAC, aelodau ei dribiwnlysoedd a'u penderfyniadau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol (ALlau) ac mae ein penderfyniadau yn gyfreithiol rwymol. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu TAAAC a'i gefnogaeth weinyddol.

Ers mis Ionawr 2015, mae plant a phobl ifanc wedi gallu cyflwyno eu hapêl neu hawliad eu hunain i TAAAC, hawl newydd nad yw'n effeithio ar hawliau presennol rhieni na gwarcheidwaid i gyflwyno apêl i TAAAC. Cyflwynwyd yr hawl newydd hwn gan Fesur Addysg (Cymru) 2009 a ddiwygiodd ddarpariaethau dan Ddeddf Addysg 1996.

Swyddogaeth TAAAC

Mae TAAAC yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau sy'n ymwneud â phlant ag anghenion addysgol arbennig. Rhieni sy'n gwneud yr apeliadau, sydd yn erbyn rhai penderfyniadau penodol y mae'r ALl wedi'u gwneud ynglŷn ag addysg plentyn. Mae TAAAC hefyd yn gwrando ar hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion yng Nghymru.

Rheoliadau TAAAC

Mae TAAAC yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod bob achos a glywir gan TAAAC yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron TAAAC yn deall yn glir y camau mae'n rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i TAAAC. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau TAAAC yn cael eu rheoli gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012
- Deddf Addysg 1996
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur Addysg (Cymru) 2009.

Proses TAAAC

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n awyddus i wneud hawliad neu apêl i TAAAC lenwi ac anfon y ffurflen gais berthnasol i TAAAC.

Mewn gwrandawiad TAAAC mae'r panel yn cynnwys Cadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol a dau Aelod o'r Panel Byd Addysg. Mae'r Aelodau o'r Panel Byd Addysg wedi cael eu penodi oherwydd eu harbenigedd cyffredinol a'u gwybodaeth am y byd addysg.

Fel arfer caiff gwrandawiadau TAAAC eu cynnal yn breifat mewn lleoliad sy'n agos at gartref y ceisydd.

Aelodau TAAAC

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi Llywydd a Chadeiryddion. Gweinidogion Cymru sy'n penodi Aelodau'r Panel o Fyd Addysg.

Llywydd:	Y Llywydd sy'n gyfrifol am reolaeth farnwrol gyffredinol y Tribiwnlys.
Cadeiryddion:	Rheolir gwrandawiadau'r tribiwnlys gan gadeirydd, ac mae'n rhaid bod ganddo gymhwyster cyfreithiol. Byddant yn ysgrifennu ac yn llofnodi penderfyniadau, rhoi gwybod am ohiriadau a phennu cyfarwyddiadau lle bo angen.
Aelodau'r Panel o Fyd Addysg:	Mae Aelodau'r Panel o Fyd Addysg yn dod ag ystod eang o brofiadau a gwybodaeth berthnasol i bob Gwrandawiad. Maent yn eistedd mewn achosion sy'n ymwneud ag Apeliadau Anghenion Addysgol Arbennig a Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
Yr Ysgrifenyddiaeth:	Yr Ysgrifenyddiaeth sy'n gyfrifol am y gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd, mae'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod apeliadau neu hawliadau ac yn trosglwyddo Cyfarwyddiadau'r Llywydd yn ysgrifenedig i'r partïon yn yr achos. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer y Llywydd, Aelodau a phartïon yn yr achos ac mae clerc yn bresennol ym mhob gwrandawiad i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.



Penodiadau

Ni wnaed unrhyw benodiadau newydd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn ystod cyfnod yr adroddiad. Cafodd digwyddiad recriwtio ar gyfer Aelodau Cyfreithiol ei lansio tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Hyfforddiant

Cynhaliwyd cynhadledd hyfforddiant i'r holl aelodau ym mis Tachwedd 2016. Cynhaliwyd hyfforddiant cyfreithiol hefyd ym mis Mawrth 2016, a mynychodd Aelodau hyfforddiant ar Wahaniaethu ar sail Anabledd. Cwblhaodd 3 aelod newydd o'r Panel Addysg eu hyfforddiant sefydlu.

Cysylltu â TAAAC

I gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth TAAAC:

Cyfeiriad TAAAC: Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LD1 5HA

Llinell Gymorth TAAAC: 03000 259800

Ffacs TAAAC: 03000 259801

E-bost TAAAC: tribunal.enquiries@gov.wales

Defnyddio TAAAC

Mae TAAAC yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod Cymraeg o staff eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cael cynnal eich gwrandawiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. s nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf a'ch bod yn dymuno siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Os oes angen dehonglydd iaith arwyddion i ddod i'r gwrandawiad, byddwn yn trefnu hynny.

Bydd darpariaeth yn cael ei wneud os bydd anabledd neu ofynion eraill o ran mynediad gennych chi, neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad, yn effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad.

Er mwyn gallu trefnu i gael dehonglwyr neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y mynychwyr, rhaid rhoi digon o rybudd i'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw.

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data Gwrandawiadau
- Adolygiadau ac apeliadau pellach
- Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion

Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg o fis Medi i fis Awst. Dyma'r ystadegau a gaiff eu casglu:

Apeliadau a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2016-17, o'i gymharu â 2015-16	Siart 2.1	Tud 9
Mathau o apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17, o'i gymharu â 2015-16	Tabl 2.2	Tud 9
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl awdurdod lleol, o'i gymharu â 2015-16	Tabl 2.3	Tud 10
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1)	Tabl 2.4	Tud 11
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2)	Tabl 2.4	Tud 12
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 am bob 10,000 o boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol, o'i gymharu â 2015-16	Siart 2.5	Tud 13
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl	Tabl 2.6	Tud 14
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol	Tabl 2.7	Tud 15
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl angen addysgol arbennig, o'i gymharu â 2015-16	Siart 2.8	Tud 16
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl rhywedd	Siart 2.9	Tud 17
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl tarddiad ethnig	Siart 2.10	Tud 17
Apeliadau yn ôl canlyniad 2016-17, o'i gymharu â 2015-16	Tabl 2.11	Tud 18
Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl 2016-17 (Rhan 1)	Tabl 2.12	Tud 19
Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl 2016-17 (Rhan 2)	Tabl 2.12	Tud 19
Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol 2016-17	Tabl 2.13	Tud 20
Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a gofrestrwyd ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2016-17, o'i gymharu â 2015-16	Siart 2.14	Tud 21
Mathau o hawliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17, o'i gymharu â 2015-16	Tabl 2.15	Tud 21
Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2016-17, o'i gymharu â 2015-16	Siart 2.16	Tud 22

Siart 2.1 Apeliadau a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2016-17, o'i gymharu â 2015-16



Tabl 2.2 Mathau o apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17, o'i gymharu â 2015-16

Math o Apêl	2016-2017		2015-2016	
	Cyfanswm yr Apeliadau 144		Cyfanswm yr Apeliadau 108	
Gwrthod Asesu	65	45%	45	41%
Gwrthod rhoi Datganiad	18	13%	10	9%
Gwrthod Ailasesu	1	1%	3	3%
Rhoi'r Gorau i Ddatganiad	2	1%	2	2%
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	14	10%	11	10%
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	25	17%	25	23%
Cynnwys Datganiad Rhan 3 yn unig	6	4%	4	4%
Cynnwys Datganiad Rhan 4 yn unig	12	8%	5	5%
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	1	1%	3	3%

Tabl 2.3 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl awdurdod lleol, o'i gymharu â 2015-16

	2016-2017		2015-2016	
	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau
Blaenau Gwent	1	1%	0	0%
Pen-y-bont ar Ogwr	10	7%	9	8%
Caerffili	3	2%	1	1%
Caerdydd	9	6%	9	8%
Sir Gaerfyrddin	8	6%	3	3%
Ceredigion	4	3%	7	6%
Conwy	14	10%	12	11%
Sir Ddinbych	3	2%	4	4%
Sir y Fflint	2	1%	2	2%
Gwynedd	2	1%	2	2%
Merthyr Tudful	0	0%	1	1%
Sir Fynwy	2	1%	4	4%
Castell-nedd Port Talbot	4	3%	0	0%
Casnewydd	10	7%	12	11%
Sir Benfro	5	3%	3	3%
Powys	4	3%	8	7%
Rhondda Cynon Taf	21	15%	6	6%
Abertawe	29	20%	12	11%
Torfaen	3	2%	4	4%
Bro Morgannwg	6	4%	7	6%
Wrecsam	3	2%	2	2%
Ynys Môn	1	1%	0	0%

Tabl 2.4 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1)

	Gwrthod Asesu	Gwrthod rhoi Datganiad	Gwrthod Ailasesu	Rhoi'r Gorau i Gynnal
Blaenau Gwent	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	4	1	0	0
Caerffili	0	0	0	0
Caerdydd	3	2	0	0
Sir Gaerfyrddin	4	2	0	0
Ceredigion	0	1	0	2
Conwy	6	4	0	0
Sir Ddinbych	1	1	1	0
Sir y Fflint	2	0	0	0
Gwynedd	1	0	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	2	0	0
Castell-nedd Port Talbot	1	0	0	0
Casnewydd	5	0	0	0
Sir Benfro	3	0	0	0
Powys	3	0	0	0
Rhondda Cynon Taf	14	2	0	0
Abertawe	13	2	0	0
Torfaen	1	1	0	0
Bro Morgannwg	3	0	0	0
Wrecsam	2	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0

Tabl 2.4 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2)

	Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 4
Blaenau Gwent	0	0	0	0	1
Pen-y-bont ar Ogwr	0	5	0	0	0
Caerffili	1	2	0	0	0
Caerdydd	2	1	0	0	1
Sir Gaerfyrddin	0	1	1	0	0
Ceredigion	1	0	0	0	0
Conwy	0	3	1	0	0
Sir Ddinbych	0	0	0	0	0
Sir y Fflint	0	0	0	0	0
Gwynedd	0	0	1	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	0	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	1	2	0	0	0
Casnewydd	3	1	0	0	1
Sir Benfro	1	1	0	0	0
Powys	0	0	0	0	1
Rhondda Cynon Taf	1	3	0	0	1
Abertawe	2	4	1	0	7
Torfaen	0	0	0	0	1
Bro Morgannwg	1	1	0	1	0
Wrecsam	0	0	0	0	1
Ynys Môn	0	0	1	0	0

Siart 2.5 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol, o'i gymharu â 2015-16



Tabl 2.6 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl

	Nifer yr apeliadau			
	Meithrin	Cynradd	Pontio Cynradd[1]	Uwchradd
Gwrthod Asesu	3	42	5	15
Gwrthod rhoi Datganiad	0	10	1	7
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	0	10	1	3
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	0	17	3	5
Cynnwys Datganiad Rhan 3	0	5	1	0
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	0	1	0	0
Cynnwys Datganiad Rhan 4	0	5	5	2
Gwrthod Ailasesu	0	0	0	1
Rhoi'r Gorau i Ddatganiad	0	0	0	2
Cyfanswm	3	90	16	35

[1] Pontio cynradd – blwyddyn olaf addysg gynradd cyn dechrau ysgol uwchradd

Tabl 2.7 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol

	Nifer yr apeliadau			
	Meithrin	Cynradd	Pontio Cynradd	Uwchradd
Blaenau Gwent	0	1	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	9	0	1
Caerffili	0	3	0	0
Caerdydd	0	6	0	3
Sir Gaerfyrddin	0	7	1	0
Ceredigion	0	1	0	3
Conwy	0	9	1	4
Sir Ddinbych	0	0	0	3
Sir y Fflint	0	2	0	0
Gwynedd	0	2	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	1	0	1
Castell-nedd Port Talbot	0	3	1	0
Casnewydd	0	6	3	1
Sir Benfro	0	2	1	2
Powys	0	1	0	3
Rhondda Cynon Taf	1	14	1	5
Abertawe	2	17	6	4
Torfaen	0	3	0	0
Bro Morgannwg	0	1	1	4
Wrecsam	0	1	1	1
Ynys Môn	0	1	0	0
Cyfanswm	3	90	16	35

Siart 2.8 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl angen addysgol arbennig, o'i gymharu â 2015-16



Siart 2.9 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl rhywedd



Siart 2.10 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17 yn ôl tarddiad ethnig



Tabl 2.11 Apeliadau yn ôl canlyniad 2016-17 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu cario drosodd), o'i gymharu â 2015-16

	2016-2017		2015-2016	
	Gwirioneddol	Canran	Gwirioneddol	Canran
Wedi'u caniatáu[2]	67	39%	38	30%
Wedi'u tynnu'n ôl[3]	29	17%	20	16%
Wedi'u tynnu'n ôl drwy gydsyniad	18	10%	15	12%
Wedi'u cadarnhau'n llawn	15	9%	15	12%
Wedi'u cadarnhau'n rhannol	6	4%	3	2%
Wedi'u gwrthod	8	5%	9	7%
Wedi'u dychwelyd[4]	0	0%	0	0%
Wedi'u Dileu[5]	4	2%	1	1%
Ar y gweill[6]	23	14%	16	20%
Cyfanswm	170	100%	127	100%

[2] Wedi'u caniatáu – caiff achosion eu caniatáu pan fydd ALl yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys nad yw'n gwrthwynebu'r apêl bellach ac mae wedi cytuno i wneud yr hyn mae'r apelydd wedi'i ofyn yn ei apêl.

[3] Wedi'u tynnu'n ôl – bydd achosion yn cael eu tynnu'n ôl pan nad yw'r apelydd yn awyddus i barhau â'i apêl rhagor. Bydd apêl yn cael ei dynnu'n ôl drwy gydsyniad pan fydd y partïon wedi dod i gytundeb a'r rhiant yn cytuno i dynnu ei apêl yn ôl ar sail diwygiadau y cytunwyd arnynt.

[4] Wedi'u dychwelyd – mae'r tribiwnlys yn penderfynu y dylid anfon yr apêl yn ôl at yr ALl yn gofyn iddo ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol.

[5] Wedi'u dileu – caiff achosion eu dileu pan nad yw/na fydd yn berthnasol i awdurdodaeth y tribiwnlys eu hystyried rhagor Bydd hyn yn dod â'r apêl i'w derfyn.

[6] Ar y gweill – mae achos ar y gweill yn y tribiwnlys.

Tabl 2.12 Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl 2016-17 (Rhan 1)

	Gwrthod Asesu	Gwrthod rhoi Datganiad	Gwrthod Ailasesu	Rhoi'r Gorau i Gynnal
Wedi'u caniatáu	49	10	0	0
Wedi'u tynnu'n ôl	4	2	0	0
Wedi'u cadarnhau'n llawn	3	1	0	0
Wedi'u cadarnhau'n rhannol	0	0	0	0
Wedi'u gwrthod	3	2	0	1
Wedi'u dychwelyd	0	0	0	0
Wedi'u dileu	0	0	1	1
Ar y gweill	7	3	0	0
Cyfanswm	66	18	1	2

Tabl 2.12 Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl 2016-17 (Rhan 2)

	Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 4
Wedi'u caniatáu	0	0	1	0	5
Wedi'u tynnu'n ôl	8	8	4	0	7
Wedi'u cadarnhau'n llawn	2	3	1	0	0
Wedi'u cadarnhau'n rhannol	0	4	0	0	0
Wedi'u gwrthod	1	1	0	0	0
Wedi'u dychwelyd	0	0	0	0	0
Wedi'u dileu	2	0	0	0	0
Ar y gweill	3	10	0	0	1
Cyfanswm	16	26	6	0	13

Tabl 2.13 Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol 2016-17

	Wedi'u caniatáu	Wedi'u tynnu'n ôl	Wedi'u tynnu'n ôl drwy gydsyniad	Wedi'u cadarnhau'n llawn	Wedi'u cadarnhau'n rhannol	Wedi'u gwrthod	Wedi'u dileu	Ar y gweill
Blaenau Gwent	1	0	0	0	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	5	3	0	0	1	0	0	3
Caerffili	0	0	2	0	0	0	0	1
Caerdydd	5	0	0	0	0	1	1	2
Sir Gaerfyrddin	3	0	2	1	0	0	0	1
Ceredigion	1	1	0	0	0	1	2	0
Conwy	7	1	1	3	0	2	0	2
Sir Ddinbych	2	0	0	0	0	0	1	1
Sir y Fflint	1	0	0	0	0	0	0	1
Gwynedd	1	0	1	0	0	0	0	1
Merthyr Tudful	0	1	0	0	0	0	0	0
Sir Fynwy	1	1	0	1	0	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	1	3	0	0	0	0	0	0
Casnewydd	4	5	3	0	1	0	0	0
Sir Benfro	1	0	1	2	0	0	0	3
Powys	2	1	0	1	0	0	0	1
Rhondda Cynon Taf	14	3	0	2	0	1	0	4
Abertawe	14	7	4	3	1	2	0	2
Torfaen	1	0	0	0	1	0	0	1
Bro Morgannwg	3	1	4	1	2	0	0	0
Wrecsam	0	1	0	1	0	1	0	0
Ynys Môn	0	1	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	67	29	18	15	6	8	4	23

Siart 2.14 Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a gofrestrwyd ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2016-17, o'i gymharu â 2015-16



Tabl 2.15 Mathau o hawliadau a gofrestrwyd yn ystod 2016-17, o'i gymharu â 2015-16

Math o hawliad	2016-2017		2015-2016	
	Cyfanswm yr hawliadau 8		Cyfanswm yr hawliadau 10	
Derbyn i'r Ysgol	0	0%	1	1%
Addysg	4	50%	2	20%
Gwahardd	4	50%	7	70%

Siart 2.16 Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2016-17, o'i gymharu â 2015-16



Data Gwrandawiadau

Yn ystod 2016-2017, aeth 38 o achosion ymlaen i wrandawiad, gan arwain at gyfanswm o 50 o ddiwrnodau gwrandawiad:

Math	Hyd (diwrnodau)
Apêl	45 diwrnod gwrandawiad
Hawliad	5 diwrnod gwrandawiad

Adolygiadau ac apeliadau pellach

Gall partïon wneud cais i benderfyniad y Tribiwnlys gael ei adolygu ar sail gyfyngedig. Yn ystod y cyfnod yr adroddiad hwn, cafwyd tri chais, caniatawyd dau a gwrthodwyd un.

Gall partïon ofyn am ganiatâd y Tribiwnlys i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys os ydynt yn meddwl bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir o safbwynt y gyfraith. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, gwnaethpwyd 2 gais am ganiatâd. Gwrthododd y Tribiwnlys roi caniatâd mewn un achos a chaniatáu adolygiad yn yr ail achos. Mae'r Tribiwnlys hefyd yn delio ag un achos a ddychwelwyd ato gan y Tribiwnlys Uchaf.

Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol mae gwasanaethau'n cael eu darparu, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer mesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; sef cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy foddhad cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r gwrandawiad neu pan fydd wedi'i gwblhau (gweler isod). Er mwyn mesur boddhad cwsmeriaid, defnyddiwyd dangosydd gennym sy'n deillio o arolygon cyfnodol ar foddhad cwsmeriaid a ddarperir wrth i achos ddod i ben (gweler adran 3).

Cyflymder ein gwasanaeth

Targed: Trin 95% o'r ymholiadau cyn-cofrestru cyn pen 10 niwrnod gwaith ar ôl derbyn y Ffurflen Gais/Apêl	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 98% o'r achosion
Targed: Cofrestru 95% o Apeliadau/ Hawliadau cyn pen 10 niwrnod gwaith ar ôl derbyn y Ffurflen Gais/Apêl	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 95% o'r achosion
Targed: Rhoi 75% o'r penderfyniadau cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawiad	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 72% o'r achosion
Targed: Ymdrin â 75% o Apeliadau/ Hawliadau cyn pen 20 wythnos	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 99% o'r achosion

Cwynion

Derbyniodd y Tribiwnlys gwynion yn ymwneud ag un achos yn ystod y flwyddyn.

Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon:

- Arolwg boddhad cwsmeriaid

Arolwg boddhad cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn ceisio ei orau i wella'r modd y darperir gwasanaethau cwsmeriaid a'r nod yw sicrhau bod ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn.

Caiff ein harolwg boddhad cwsmeriaid ei rannu ar ddiwedd achos. Mae canlyniadau'r arolwg yn ein galluogi i ddeall yn well beth yw anghenion ein cwsmeriaid, a bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar feysydd llwyddiannus y Tribiwnlys, yn ogystal â thynnu sylw at y meysydd hynny y mae angen i'r Tribiwnlys eu gwella.

Cawsom12 ffurflen wedi'i llenwi yn ystod cyfnod 2016-2017. Rydym yn casglu gwybodaeth ynglŷn â'r meysydd canlynol:

Cyfathrebu

Dywedodd 100% ein bod yn ymateb yn brydlon. Dywedodd 91% ein bod yn gwrtais ac yn barod i helpu. Roedd y 15% yn weddill ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Dywedodd 91% fod yr wybodaeth y gwnaethom ei darparu yn gywir ac yn glir.

Gwasanaeth

Dywedodd 82% eu bod yn gallu deall y broses, gydag un rhiant ac un cynrychiolydd Awdurdod Lleol yn dweud nad oeddynt yn ei deall.

Dywedodd 67% i'r llyfrynnau canllaw fod yn ddefnyddiol iddynt, gydag 17% ddim yn mynegi barn o gwbl. Dywedodd 92% ein bod wedi prosesu eu cais yn effeithlon.

Gwrandawiad

Dywedodd 100% eu bod yn fodlon ar leoliad y man lle cynhaliwyd y gwrandawiad a bod ein staff yn gwrtais ac yn barod i helpu yn y gwrandawiad.

Gwefan

Roedd yr holl ymatebion a gadarnhaodd eu bod yn defnyddio'r wefan, wedi cadarnhau eu bod yn ei chael yn ddefnyddiol.

Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2017- 2018

Mae'n bwysig bod TAAAC yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd TAAAC yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

- Cynllunio a chynnal digwyddiad hyfforddi i'r holl aelodau
- Cynllunio a chynnal cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr yng ngogledd a de Cymru
- Trefnu a chynnal gwerthusiadau ar gyfer yr holl aelodau
- Parhau i fonitro a diweddaru gwefan Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
- Parhau i gyfrannu at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg
- Darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, bodloni dangosyddion perfformiad allweddol ac ymateb i adborth mewn arolygon boddhad cwsmeriaid.

Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon, ein:

- Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-2017

Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-2017

Cynnwys	Swm
Ffioedd a Threuliau'r aelodau ar gyfer achosion y tribiwnlys	£101,000
Digwyddiadau'r Tribiwnlys gan gynnwys costau gwrandawiadau	£24,000
Cyfanswm*	£125,000

* wedi'i dalgrynnu i'r £1,000 agosaf